

JONES, ISAAC (1804 - 1850), clericwr, cyfieithydd, a golygydd

Enw: Isaac Jones
Dyddiad geni: 1804
Dyddiad marw: 1850
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericwr, cyfieithydd, a golygydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 2 Mai 1804 yn Llanychaearn, ger Aberystwyth, yn fab i wehydd. Cafodd ei addysg gyntaf gan ei dad, a dywedir iddo fedru darllen Lladin yn 7 oed. Aeth i ysgol yn y plwyf, ac yna i ysgol ramadeg Aberystwyth. Bu'n athro yn yr ysgol honno wedyn, ac yn brifathro o 1828 hyd 1834. Ar ôl dwy flynedd yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan, lle yr enillodd ysgoloriaeth Eldon mewn Hebraeg, urddwyd ef yn ddiakon, Medi 1836, ac yn offeiriad, Medi 1837. Trwyddedwyd ef i guradiaeth Llanfihangel-genau'r-glyn yn 1836, ac ar ôl gwasnaethu yno ac yng Nghapel Bangor aeth, yn Chwefror 1840, yn gurad i Lanedwen a Llanddaniel-fab ym Môn. Bu yno hyd ei farw, 2 Rhagfyr 1850, a chladdwyd ef ym mynwent Llanidan. Cyfieithodd waith W. Gurney (dwy gyfrol) dan y teitl *Geiriadur Ysgrhythryol*, 1831, a chyhoeddodd *Gramadeg Cymreig, sef Traethawd ar Egwyddorion yr Iaith*, 1832.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Geninen, 1897, 37

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Benjamin Williams (Gwynionydd), *Enwogion Sir Aberteifi* (1868)

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 96850714

Wikidata: Q18524054

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Erwch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1953). JONES, ISAAC (1804 - 1850), clericwr, cyfieithydd, a golygydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-ISA-1804>

Trannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government